

Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Manylion Person: Swyddog Datblygu Menter Iaith Fflint a Wrecsam

Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

- Ymwybyddiaeth o ddefnyddiau ac amcanion Menter Iaith Fflint a Wrecsam a'i gweledigaeth parthed lledaenu'r iaith Gymraeg yn Siroedd y Fflint a Wrecsam a Chymru gyfan.
- Y gallu i adnabod bylchau mewn darpariaeth a gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff/mudiadau sydd yn addas i dargedau'r swydd.
- Yr hyder i greu cyfleoedd newydd gan adnabod ac ysgogi gwirfoddolwyr i fod yn rhan o'r datblygiadau.
- Yn drefnus a meddu ar sgiliau cyfathrebu da iawn yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig.
- Yn meddu ar gymeriad addas i ymwneud ag ystod eang iawn o wahanol bobl o bob oed.

Hanfodol:

- Profiad o drefnu a chynnal gweithgareddau a digwyddiadau - boed yn gyflogedig neu'n wirfoddol.
- Sgiliau cyfrifiadurol da.
- Sgiliau rhyngpersonol da â'r gallu i gyfathrebu ar lafar yn ddwyieithog ar unrhyw lefel.
- Y gallu i weithio mewn tîm.
- Y gallu i weithio heb gyfarwyddyd uniongyrchol.
- Brwdfrydedd dros yr iaith a'r ddiwylliant Gymraeg.
- Parodrwydd i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau yn achlysurol.
- Sgiliau rheoli amser da.
- Trwydded yrru llawn a defnydd car.

Dymunol:

- Profiad o ddatblygu a rheoli prosiectau a'u gwerthuso.
- Profiad o baratoi ceisiadau am nawdd.
- Profiad o baratoi adroddiadau.
- Sgiliau ymchwil, megis cynllunio holiaduron a'r gallu i ddadansoddi gwybodaeth.
- Profiad o weithio gyda grwpiau cymunedol i weithredu prosiectau.
- Cymhwyster Gwaith Ieuencid.
- Hyfforddiant Iechyd a Diogelwch a Chymorth Cyntaf.

- Hyfforddiant Asesu Risg (Off-Site Safety) a/neu brofiad o lunio a darparu asesiadau risg ag ymwybyddiaeth o brosesau lechyd a Diogelwch.
- Profiad o waith gweinyddol.
- Profiad o weithio yn y maes cynllunio ieithyddol a gwybodaeth am dechnegau codi ymwybyddiaeth iaith.
- Profiad o wneud cyflwyniadau.
- Profiad o gydweithio gyda sefydliadau yn y sector breifat/gyhoeddus

Newidiadau i'r Disgrifiad Swydd:

Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd:

Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad:

Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym Mai 2018 ac fe'i adolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.